


Disgrifio



Dewch i ...!



Dewch i Abertawe!



Dinas Abertawe:

siopau modern ... sinemâu gwych ... marina hyfryd ... tai bwyta, caffis a bwyd blasus ... theatr ... amgueddfa ddiddorol ... Stadiwm y Liberty (ble mae tîm pêl-droed Abertawe – yr Elyrch – yn chwarae) ... pwll nofio ffantastig a MWY!

Mae'n wych! Mae'n gyffrous!

Hefyd ... Bro Gŵyr:

traethau hyfryd ... môr glân ... adeiladau hanesyddol ... eglwys ddiddorol

Lle da i gerdded ... nofio ... hwyllo ... mwynhau!



Dewch i gael hwyl mewn ardal ANHYGOEL!

Help

Geirfa	
dinas	city
tai bwyta	restaurants
amgueddfa	museum
yr Elyrch	the Swans
traethau	beaches
môr	sea
glân	clean
adeiladau	buildings
hanesyddol	historical
eglwys	church
ardal	area
anhygoel	awesome

i Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

cinemas

modern

theatre

Pêl-droed mewn swigen



Pêl-droed mewn swigen / Bubble ball

Oddi wrth: Joe2@gweciw.com

At: Chris@gweciw.com

Haia!

Dw i'n mynd i chwarae pêl-droed mewn swigen (*bubble ball* yn Saesneg) y prynhawn yma. Gêm ydy hi ac mae'n wych. Mae'n gyffrous iawn ac mae'n llawer o hwyl.

Mae'r gêm fel pêl-droed ond rhaid chwarae mewn pêl zorbio fawr. (Edrycha ar y llun!). Rhaid gwisgo crys T a siorts achos mae hi'n boeth yn y bêl zorbio. Rhaid gwisgo esgidiau pêl-droed i chwarae hefyd.

Yna, rhaid rhedeg, cicio, pasio'r bêl a sgorio. Mae'n anodd mewn pêl zorbio, ond mae'n hwyl – mae'n llawer o hwyl!

Chwaraeais i mewn gêm ddydd Sadwrn diwethaf. Roedd hi'n anhygoel. Roedd ein tîm ni'n gwisgo crysau T coch, siorts gwyn a siorts gwyrdd – lliwiau Cymru. Enillon ni o 12 gôl i 0 - roedd y tîm arall yn ofnadwy!

Beth am ofyn i Mr Smith, addysg gorfforol, brynu peli zorbio i'r ysgol?

Wela i di yfory.

Joe

Help

Geirfa	
swigen	bubble
fel	like, similar to
lluniau	pictures
anodd	difficult
diwethaf	last
arall	other
addysg gorfforol	PE
prynu	to buy

Pwy ydw i?

Pwy ydw i?

Os ydych chi mewn ysgol yn Ne Cymru, darllenwch **Darn 1**.

Os ydych chi mewn ysgol yng Ngogledd Cymru, darllenwch **Darn 2**.

Darn 1

Helo o Japan! Dyma fi:

Enw: Aiko Chihira

Byw: Japan

Oed: 32 oed

Gwaith: Derbynnydd mewn siop

Aiko Chihira ydw i a dw i'n byw yn Japan. Dw i'n 32 oed a dw i'n siarad Japanaeg a Tsieinëeg ond dw i eisiau dysgu siarad ieithoedd eraill. Dw i'n gallu defnyddio iaith arwyddion hefyd.

Mae gwallt hir coch gyda fi. Mae llygaid bach brown gyda fi. Dw i'n gyfeillgar iawn.

Dw i'n gweithio mewn siop – dw i'n dweud, “Helo” wrth y cwsmeriaid wrth ddrws y siop. Dw i'n hoffi'r gwaith achos dw i'n hoffi siarad gyda'r cwsmeriaid. Dw i'n helpu'r cwsmeriaid hefyd – dw i'n dweud ble mae pethau yn y siop. Dw i'n gwisgo kimono yn y gwaith.



Mae'r Gemau Olympaidd yn dod i Tokyo yn 2020 a dw i eisiau helpu'r ymwelwyr. Dw i eisiau dweud wrth ymwelwyr ble mae pethau yn y Gemau Olympaidd.

Wel, dyna fi – ond ... **beth** ydw i?

Help

Geirfa	
derbynnydd	receptionist
ieithoedd	languages
gallu	to be able to, can
defnyddio	to use
iaith	language
arwyddion	signs
	long

cyfeillgar	friendly
pethau	things
ymwelwyr	visitors

Darn 2

Helo o Japan! Dyma fi:

Enw:	Aiko Chihira
Byw:	Japan
Oed:	32 oed
Gwaith:	Derbynnydd mewn siop

Aiko Chihira ydw i a dw i'n byw yn Japan. Dw i'n 32 oed a dw i'n siarad Japanaeg a Tsieinëeg ond dw i eisiau dysgu siarad ieithoedd eraill. Dw i'n gallu defnyddio iaith arwyddion hefyd.

Mae gen i wallt hir coch. Mae gen i lygaid bach brown. Dw i'n gyfeillgar iawn.

Dw i'n gweithio mewn siop – dw i'n dweud, “Helo” wrth y cwsmeriaid wrth ddrws y siop. Dw i'n hoffi'r gwaith achos dw i'n hoffi siarad gyda'r cwsmeriaid. Dw i'n helpu'r cwsmeriaid hefyd – dw i'n dweud ble mae pethau yn y siop. Dw i'n gwisgo kimono yn y gwaith.



Mae'r Gemau Olympaidd yn dod i Tokyo yn 2020 a dw i eisiau helpu'r ymwelwyr. Dw i eisiau dweud wrth ymwelwyr ble mae pethau yn y Gemau Olympaidd.

Wel, dyna fi – ond ... **beth** ydw i?

Help

Geirfa	
derbynnydd	receptionist
ieithoedd	languages
gallu	to be able to, can
defnyddio	to use
iaith	language
arwyddion	signs

iaith	sign
arwyddion	language

hir	long
-----	------

cyfeillgar	friendly
------------	----------

pethau	things
--------	--------

ymwelwyr	visitors
----------	----------

Iolo Williams

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm.

Dyma ychydig o help i chi.

Help

Geirfa	
pentre	village
o'r enw	called
yn ymyl	near
y Drenewydd	Newtown
yn wreiddiol	originally
eto	again
naturiaethwr	naturalist
cyflwynydd	presenter
sgwennu = ysgrifennu	to write
cyflwyno	to present
yr awyr agored	the open air
yn enwedig	especially
gadael	to allow
trwy'r amser	all the time
sy'n byw	that lives

gwledydd

countries

sy'n ...

that is ...

prin

rare

erbyn

by

barcut coch

red kite

cynffon

tail

fforchog


kind

math

forked

cenedlaethol

national



Iolo Williams: trawsgrif

Sut ydych chi heddiw?

Helo, dw i'n dda iawn diolch yn fawr.

Beth ydy'ch enw chi?

Iolo Williams ydw i.

Ble ydych chi'n byw?

Dw i'n byw mewn pentre bach o'r enw Llandysul, yn ymyl y Drenewydd.

O ble ydych chi'n dod?

Dw i'n dod yn wreiddiol o bentre Llanwddyn, eto yng ngogledd Sir Powys.

Beth ydy'ch gwaith chi?

Dw i'n gweithio fel naturiaethwr, a hefyd cyflwynydd teledu a dw i'n sgwennu llyfrau.

Pa fath o raglenni ydych chi'n cyflwyno?

Dw i'n cyflwyno rhaglenni natur a rhaglenni awyr agored.

Pa fath o lyfrau ydych chi'n ysgrifennu?

Dw i'n ysgrifennu llyfrau natur ac yn enwedig llyfrau adar.

Pam ydych chi'n hoffi byd natur?

Dw i'n hoffi byd natur achos fod o'n gadael i mi fod yn yr awyr agored trwy'r amser.

Beth ydy'ch hoff anifail chi?

Fy hoff anifail ydy'r teigr, sef cath fawr oren efo streipiau du ... sy'n byw mewn gwledydd fel India a China ... ond sy'n anifail prin iawn erbyn heddiw.

Beth ydy'ch hoff aderyn chi?

Fy hoff aderyn ydy'r barcut coch ac mae'r barcut coch yn aderyn mawr efo cynffon fforchog - efo math o "V" yn y gynffon. Achos mai hwn ydy aderyn cenedlaethol Cymru, fy hoff aderyn ydy'r barcut coch.

Cartref cyfforddus

Edrychwch ar y llun yma o ystafell fyw.



Llun: James Balston ©

Beth sy yn y llun? Siaradwch am hyn ac yna cliciwch yma.

Yn y llun mae llyfrau, teledu, lluniau ar y wal, cesys, cwpwrdd, cadair, bocs, cloc, blodau, fâs, ornaments, aderyn du

Edrychwch ar y gegin yma.

Pa liw ydy'r gegin?

Beth sy yn y gegin?



Llun: James Balston ©

Beth sy yn y llun? Siaradwch am hyn ac yna cliciwch yma.

Mae'r gegin yn goch, llwyd / arian, du a gwyn.

Yn y gegin mae cypyrddau, hob, ffan, potiau, pot coffi, tegell, offer cegin, brwshys

Edrychwch ar y llun yma o'r ystafell ymolchi.



Pa liw ydy'r ystafell?
Siaradwch am hyn ac yna cliciwch yma.

Llun: James Balston ©

Mae'r ystafell ymolchi yn wyn, coch a melyn / aur.

A beth sy yn y llun yma?

Disgrifiwch y llun. Siaradwch am hyn ac yna cliciwch yma.



Llun: James Balston ©

Beth sy yn y llun? Siaradwch am hyn ac yna cliciwch yma.

Mae gardd yn y llun. Yn yr ardd, mae cadair a bwrdd, clustog, ffens, ysgol, blodau, can dŵr, planhigion.

Ble mae'r cartref yma, tybed?

Siaradwch am hyn ac yna cliciwch yma.

Mae'r cartref yma yn Llundain.

Mae'r cartref yma'n anhygoel! Mae'r cartref yma'n ddiddorol iawn! Mae'r cartref yma'n ffantastig. Pam?

Achos unwaith, toiledau oedd y cartref yma. Ie – toiledau.

Os ydych chi eisiau gweld mwy o luniau, ewch i:

<http://www.telegraph.co.uk/finance/property/9462068/From-public-loo-to-private-home-in-pictures.html>.

Help

Geiriau

fâs	vase
cwpwrdd, cypyrddau	cupboard, cupboards
tegell	kettle
offer cegin	kitchen utensils
gardd	garden
clustog	cushion
ysgol	ladder
planhigion	plants
unwaith	once

Yr ardal



Aberaeron

Cerian ydw i a dw i'n byw yn Aberaeron yng Ngorllewin Cymru. Tref ydy Aberaeron ac mae'n hyfryd. Mae adeiladau lliwgar iawn yma. Mae siopau, pwll nofio, canolfan hamdden a harbwr yma. Mae'r harbwr yn hardd iawn. Dw i wrth fy modd yn byw yma achos dw i'n mwynhau byw wrth y môr.

Newtown

Owain ydw i a dw i'n byw yn y Drenewydd (*Newtown*), yn Nwyrain Cymru. Mae pwll nofio, sinema, canolfan hamdden a theatr yma. Dw i'n mwynhau byw yma achos mae gen i lawer o ffrindiau yma.

Newport (pem)

Raaina ydw i a dw i'n byw yn Nhrefdraeth (*Newport*), Sir Benfro. Pentref ydy Trefdraeth. Mae rhai siopau yma ond does dim sinema na theatr yma. Dw i wrth fy modd yn byw yma achos dw i'n mwynhau mynd i'r traeth gyda fy ffrindiau.

Wreccsam

Yasseen ydw i a dw i'n byw yn Wreccsam, yng Ngogledd Cymru. Tref ydy Wreccsam ac mae'n wych achos mae llawer o bethau yma – siopau modern, sinema wych sy'n dangos ffilmiau newydd, theatr, cae pêl-droed (Y Cae Ras) lle mae tîm pêl-droed Wreccsam yn chwarae, pwll nofio mawr, canolfannau hamdden ardderchog – a mwy! Dw i'n hoffi byw yma achos mae'n gyffrous – mae digon o bethau i wneud.

Llanelli

Ben ydw i a dw i'n byw yn Llanelli, tref yn Ne Cymru. Mae digon o bethau i wneud yn Llanelli hefyd. Mae sinema a theatr newydd sbon yma ac maen nhw'n ardderchog. Mae canolfannau hamdden yma – a phwll nofio mawr. Hefyd, mae'n bosib mynd i lan y môr. Mae Llanelli'n wych!

Help

Geirfa	
tref	town
adeiladau	buildings
lliwgar	colourful
pentref	village
na	nor
pethau	things
sy'n dangos	that shows
digon o	plenty of
newydd sbon	brand new

i Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

harbour

cinema

theatre

Ai ai!

Edrychwch ar y lluniau yma o anifeiliaid.

Beth ydy'r anifeiliaid yma tybed?



a.

← 'Nôl

Nesaf →

Darllenwch am yr anifeiliaid.

Os ydych chi'n mynd i ysgol yn Ne Cymru, ewch i **Tasg 1**. Os ydych chi'n mynd i ysgol yng Ngogledd Cymru, ewch i **Tasg 2**.

Beth sy yn y bocs?

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
dyfalu	to guess
arbenigwr	expert
coes	leg
braich	arm
llygad	eye
clust	ear
yr Almaen	Germany
hen bethau	antiques
y peth yma	this thing
we	web
gwerth	value
brwnt	dirty
budr	dirty
drewi	to stink



Casi:

Noswaith dda. Croeso i raglen newydd ar y teledu – **BETH sy yn y bocs?**

Yn y rhaglen yma, rhaid dyfalu beth sy yn y bocs ... ac yna bydd arbenigwr yn siarad am y peth.

Casi Davies ydw i ond pwy ydy'r arbenigwr heno?

Casi:

Wel, dyma'r arbenigwr heno, Mr Peregrine Pryce.

Croeso, Mr Pryce.

PP:

Diolch.

Casi:

Pwy sy'n mynd i ofyn ... **BETH** sy yn y bocs?

Wel ...

Casi:

Rhowch groeso i Mrs Annie Jones.

Croeso i chi, Annie.

Annie:

Diolch.

Casi:

Yn gyntaf ... pwy ydych chi, Annie?

Annie:

Wel, dw i'n byw yn Llanelli a dw i'n gweithio mewn siop.

Casi:

Diolch, Annie. Pwy arall sy'n mynd i ofyn **BETH** sy yn y bocs?

Wel ... Dyma Carwyn Claude Crawford ...

Rhowch groeso i Carwyn Claude Crawford.

CCC:

Diolch ... Diolch ... Diolch i chi. Diolch yn fawr iawn.

Casi:

Pwy ydych **chi**, Carwyn?

CCC:

Carwyn Claude Crawford ydw i a dw i'n byw yn Aberystwyth ... Dw i'n hoffi byw yn Aberystwyth – mae'n wych.

Dw i'n hoff iawn o rygbi ... Dw i'n hoffi rygbi yn fawr iawn ... Mae rygbi'n wych ... yn hwyl ... yn ffantastig ... yn fendigedig. Dw i wrth fy modd yn gwylio rygbi ... a dw i wrth fy modd yn coginio hefyd. Dw i'n hoffi chwilio am drysor hefyd a ...

Casi:

Hm hm.

CCC:

O, mmm, iawn ...

Casi:

Reit – beth am chwarae'r gêm?

Annie:

Syniad da.

Casi:

lawn ... Annie ... dechreuwch chi.

Annie:

Diolch.

Annie:

BETH sy yn y bocs, Carwyn?

CCC:

Llyfr?

Annie:

Arhoswch, Carwyn. Mae Annie'n mynd i roi cliwiau i chi.

CCC:

O ... cliwiau ... gwych!

Annie:

lawn, Carwyn ... BETH sy yn y bocs?

Annie:

Un. Mae e'n frown.

CCC:

Esgid?

Casi:

Arhoswch, Carwyn. Mae Annie yn mynd i roi **PUM** cliw i chi.

CCC:

PUM cliw?!?!? O, gwych.

Annie:

lawn, Carwyn ... BETH sy yn y bocs?

Un: Mae e'n frown.

Dau: mae **dwy** goes gyda fe.

Tri: mae **dwy** fraich gyda fe.

Pedwar: Mae **dau** lygad gyda fe.

Pump: Mae **un** glust gyda fe.

CCC:

Eh?!?!? O, Mae'n ddrwg gen i – PARDWN!

Casi:

Felly, dyma'r cliwiau, Carwyn.

Un: Mae o'n frown.

Dau: mae ganddo fo **ddwy** goes.

Tri: mae ganddo fo **ddwy** fraich.

Pedwar: Mae ganddo fo **ddau** lygad.

Pump: Mae ganddo fo **un** glust.

Felly, Carwyn – BETH sy yn y bocs?

CCC:

Mmm – BETH sy yn y bocs?

Casi:

Wel, Carwyn, BETH sy yn y bocs?

CCC:

Dw i ddim yn gwybod. Ci bach?

Casi:

Ci bach – gydag un glust?!?!?

CCC:

Wel...

Casi:

Annie, BETH sy yn y bocs?

Annie:

Tedi bêr.

CCC:

O, wrth gwrs ... ! Tedi bêr.

Casi:

Da iawn, Annie. **Dim** pwyntiau i chi, Carwyn – ond **pum** pwynt i Annie.

CCC:

Ond ...

Casi:

Rŵan – beth ydy barn yr arbenigwr?

PP:

Mae'r tedi bêr yma'n hen iawn. Mae e'n hyfryd. Edrychwch, mae'r breichiau'n symud. Mae'r coesau'n symud - ond dydy'r pen ddim yn symud.

Mae'r tedi bêr yn dod o'r Almaen.

Annie:

Bobl bach, mae'r tedi bêr yn dod o'r Almaen!

Annie:

Gwelais i'r tedi bêr mewn siop hen bethau ac felly, es i i mewn ac yna prynais i fe.

PP:

O, faint oedd e?

Annie:

Talais i wyth punt.

PP:

Faint?

Annie:

Talais i wyth punt.

PP:

Pryd?

Annie:

Yn un naw naw naw.

PP:

Bobl bach! Heddiw, mae'r tedi bêr yma'n werth saith deg punt.

Annie:

Faint?

PP:

Saith deg punt.

Annie:

Waw - gwyh! ANHYGOEL! Diolch yn fawr.

Casi:

Rŵan, eich tro chi, Carwyn.

CCC:

Da ra! BETH sy yn y bocs? ...

BETH sy yn y bocs? ...

Casi:

Carwyn, rhaid i chi roi pum cliw i Annie.

CCC:

O, mmm, iawn.

Wel,

Un: Mae e'n wyn ac yn goch.

Dau: Dw i'n gwisgo'r peth yma i wyllo rygbi.

Tri: Gwisgais i'r peth yma yn y gêm rhwng Cymru a Ffrainc.

Pedwar: Prynais i'r peth yma ar y we.

Pump: Talais i wyth punt naw deg naw am y peth yma – bargaen!

Casi:

Diolch, Carwyn.

Iawn, Annie, dyma'r cliwiau i chi.

Un: Mae o'n wyn ac yn goch.

Dau: Mae Carwyn yn gwisgo'r peth yma i wyllo rygbi.

Tri: Gwisgodd Carwyn y peth yma yn y gêm rhwng Cymru a Ffrainc.

Pedwar: Prynodd Carwyn y peth yma ar y we.

Pump: Talodd Carwyn wyth punt naw deg naw am y peth yma.

Felly, Annie - BETH sy yn y bocs?

Casi:

Wel, Annie, BETH sy yn y bocs?

Annie:

Mmm ... sgarff rygbi?

Carwyn, BETH sy yn y bocs?

CCC:

Sgarff rygbi! Da ra.

Casi:

Da iawn, Annie. Pum pwynt arall i chi – ond dim pwyntiau i Carwyn.

CCC:

OND ...

Casi:

Rŵan – beth ydy barn yr arbenigwr?

PP:

Mmm – diolch yn fawr. Ych a fi!

CCC:

Ych a fi???

PP:

lawn ... sgarff goch a gwyn ... mmm – sgarff **rygbi** goch a gwyn.

CCC:

Prynais i'r sgarff ar y we.

PP:

O, faint daloch chi am y sgarff?

CCC:

Wyth punt naw deg naw.

PP:

Faint?

CCC:

Wyth punt naw deg naw.

PP:

Pryd?

CCC:

O, dw i ddim yn siŵr, yn un naw naw naw efallai.

Faint ydy gwerth y sgarff heddiw?

PP:

Dwy geiniog.

CCC:

Dwy geiniog?!?!?!?

PP:

Mr Crawford ...

CCC:

Claude ...

PP:

Claude, mae'r sgarff yn frwnt – yn fudr – mae'r sgarff yn drewi. Mae'r sgarff yn ofnadwy.

CCC:

Ond ...

Casi:

Wel, dyna ddiwedd y rhaglen.

Cofiwch – wythnos i heno, am wyth o'r gloch, rhaglen arall o BETH sy yn y bocs – Hwyl fawr!

Tegi

Rydych ch'n mynd i wrando ar eitem o newyddion o'r radio.

Dyma ychydig o help i chi os ydych chi eisiau help.

Help

Geirfa	
bwystfil	monster
yno	there
er enghraifft	for example
prysur	busy
gwlad	country
o gwmpas	around
enwog	famous
llyn	lake
chwaraeon dŵr	water sports
rheswm	reason
tywyll	dark
siâp	shape
codi	to rise

hir

long

Pwy a wŷyr?

Who
knows?



Tegi

-2:06



Tegi - Trawsgrif

Croeso i'r newyddion.

Mae'r Bala'n lle diddorol iawn.

Beth sy yno? Wel, mae siopau diddorol ar y Stryd Fawr, er enghraifft siop Gymraeg, siopau bwyd, siopau bara, siop esgidiau ac ati. Mae llawer o gaffis a thai bwyta da yno hefyd lle mae'n bosib bwyta bwyd blasus – ac, wrth gwrs, yn y Bala mae sinema sy'n dangos ffilmiau newydd a chanolfan hamdden ardderchog hefyd.

Mae'r Bala'n dref fach brysur ac o gwmpas y dref mae gwlad fendigedig gyda bryniau hardd.

Mae'r Bala'n enwog achos mae llyn hyfryd yma ac mae'n bosib canwio a mwynhau chwaraeon dŵr ar y llyn. Ond mae'r llyn yn enwog am reswm arall hefyd. Mae rhai pobl yn dweud bod bwystfil, neu *monster*, yn byw yn y llyn – fel y Loch Ness Monster.

Tegi ydy enw'r bwystfil achos Llyn Tegid ydy enw'r llyn.

Ond pa fath o fwystfil ydy o? Gwrandewch ar Siôn Davies,

"Roeddwn i'n cerdded adre o'r ganolfan hamdden nos Wener. Roedd hi'n noson braf ond roedd hi'n dywyll. Clywais i sŵn rhyfedd yn dod o'r llyn. Es i i lawr at y llyn a gwelais i siâp mawr, hir, du yn codi o'r dŵr. Edrychais i ar y siâp hir, mawr, du ac yna meddyliais i, "Tegi!". Ond yna, aeth y bwystfil yn ôl o dan y dŵr.

Oes bwystfil yn Llyn Tegid? Pwy a wŷr? Beth ydych chi'n feddwl?


Ffilmiau

Pa fath o ffilmiau ydych chi'n mwynhau?

- ffilmiau comedi (*comedies*)
- ffilmiau antur (*adventure films*)
- ffilmiau ias a chyffro (*thrillers*)
- ffilmiau rhamant (*romances*)
- ffilmiau hanesyddol (*historical films*)
- ffilmiau arswyd (*horror movies*)
- ffilmiau cowboi (*westerns*)
- ffilmiau cerdd (*musicals*)
- ffilmiau ffug wyddonol (*sci-fi films*)



Beth am ffilmiau ditectif (*detective movies*) ... neu ffilmiau dirgelwch (*mystery films*) ... neu ffilmiau James Bond?



Mae llawer o bobl yn mwynhau ffilmiau James Bond, wrth gwrs. Dyma adolygiad o un o ffilmiau James Bond:

Skyfall



Mae ffilmiau James Bond yn gyffrous iawn ond *Skyfall* ydy'r ffilm James Bond orau.

Pa fath o ffilmiau ydy ffilmiau James Bond? Maen nhw'n ffilmiau ias a chyffro ac maen nhw'n ffilmiau antur hefyd. Ffilmiau ysbïwyr ydyn nhw ac mae *Skyfall* yn ffilm ysbïwyr ardderchog.

Mae'r stori'n gyffrous. Ar y dechrau, mae James Bond ac Eve Moneypenny yn chwilio am ddyn drwg o'r enw Patrice achos mae e wedi dwyn disg caled. Ar y disg mae enwau ysbïwyr o Brydain.

Mae Patrice yn gweithio i Silva ac mae e eisiau lladd yr ysbiwyr. Mae e eisiau lladd M, pennaeth James Bond, hefyd ond mae James Bond yn helpu M.

Mae M a fe'n mynd i'r Alban, i hen gartref James Bond, ac mae Silva'n dod ar ôl y ddau.

Beth sy'n digwydd? Rhaid gwyllo'r ffilm!

Mae'r cymeriadau'n realistig iawn. Mae James Bond (Daniel Craig) yn olygus ac yn heini iawn. Mae e'n gyrru'n gyflym ac mae e'n ymladd yn ddewr. Mae e'n sensitif hefyd achos mae e'n hoffi M ac mae e eisiau ei helpu hi.

Mae M (Judi Dench) yn bennaeth da achos mae hi'n poeni am ei staff ac mae hi eisiau eu helpu nhw. Mae hi'n ddewr hefyd.

Mae'r gwaith ffilmio'n ardderchog ac mae'r golygfeydd yn drawiadol iawn. Rydyn ni'n gweld Istanbul, gwlad hardd a môr glas hyfryd yn Nhwrci! Hefyd, pan mae James Bond ac M yn mynd i'r Alban, mae hi'n dywyll ac yn ddiflas iawn – gwahanol iawn i haul a'r tywydd braf yn Nhwrci.

Mae'r gerddoriaeth yn anhygoel hefyd. Mae'n gyffrous ac yn uchel pan mae James Bond yn ymladd ond mae'n dawel ac yn sensitif weithiau – er mwyn creu awyrgylch arbennig.

Fel ffilmiau eraill James Bond, mae llawer o bethau'n digwydd yn y ffilm yma ac mae rhywbeth at ddant pawb. Mae

llawer o hiwmor yn y ddeialog hefyd.
Heb os nac oni bai, mae'r ffilm yn
gyffrous.

Dw i wrth fy modd yn gwyllo ffilmiau
James Bond a dw i'n edrych ymlaen at yr
un nesaf! Ewch i weld y ffilm!

Llun: Alan Wu © Under Creative Commons (CC BY-SA
2.0) <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0/>

Idiom

rhywbeth at ddant pawb something for everyone

Help

Geirfa

adolygiad	review
gorau	best
ysbiwyr	spies
wedi dwyn	has stolen
lladd	to kill
pennaeth	boss
diwedd	end
cymeriadau	characters

golygus	handsome
heini	fit
yn ddewr	bravely
golygfeydd	scenery
trawiadol	striking
awyrgylch	atmosphere
ymlaen	forward

Rhyfedd!

Edrychwch ar y lluniau yma.



I.

← 'Nôl

Nesaf →

Meddylwch am y cwestiynau yma ac yna cliciwch i ddangos yr ateb cywir.

Beth sy'n gyffredin i'r lluniau?

Mae esgid neu esgidiau ym mhob llun.

Beth sy yn llun 1?

Esgidiau neidio glas, coch a melyn (yn Stockholm, Sweden).

Beth sy yn llun 2?

Fflôt mewn carnifal yn Aix-en-Provence, Ffrainc

Beth sy yn llun 3?

Esgidiau ar goeden yn Utah. Mae teithwyr wedi gosod yr esgidiau yma ar y goeden.

Beth sy yn llun 4?

Sliperi toiled. Yn Japan, mae pobl yn gwisgo sliperi yn y tai a rhaid gwisgo sliperi arbennig i fynd i'r toiled.

Beth sy yn llun 5?

Hen sandalau ar y tywod.

Beth sy yn llun 6?

Bwcedi a fflip fflops plastig mewn siop yn Burkina Faso, Africa.

Ond beth am yr esgidiau yma?



Mae'r rhain yn esgidiau arbennig iawn. Pam tybed? Edrychwch yn ofalus a dyfalwch.

Ar ôl dyfalu, cliciwch yma:

<http://www.odditycentral.com/news/australian-design-company-creates-tent-sneakers-for-campers-on-the-go.html>.

Help

Geirfa	
cyffredin	common
ym mhob	in every
teithwyr	travellers
gosod	to place
tywod	sand
y rhain	these
tybed	I wonder
dyfalu	to guess

Lluniau lliwgar



Aderyn lliwgar llachar
yn eistedd heb siw na miw
yn aros am fwyd.

Carped lliwgar o flodau
yn enfys o liwiau
bendigedig.

Dwy ferch swil
mewn dillad fflamgoch, hardd
ar gefndir gwyn ysblennydd.

Golau gwyrdd dramatig
yn saethu'n sydyn ar draws
awyr ddu y nos.

Môr gwyrdd llonydd,
cychod cysglyd,
harbwr hyfryd.

Mae'r byd yn llawn

Pobl a phethau

LLIWGAR!

Non ap Emlyn



(a)



(b)



(c)



(ch)



(d)



(dd)

Help

Geirfa

lliwgar colourful

llachar bright

heb siw na
miw without a
 sound

aros to wait

enfys	rainbow
swil	shy
fflamgoch	flaming red
cefndir	background
ysblennydd	splendid
saethu	to shoot
ar draws	across
awyr	sky
llonydd	still
cychod	boats
cysglyd	sleepy
pethau	things

📌 Edrychwch ...!

lliw (colour) > **lliwgar** (colourful)

cysgu (to sleep) > **cysglyd** (sleepy)

fflam (flame) + **coch** (red) > **fflamgoch** (flaming red)

